Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cynllun Gweithredu Niwroamrywiaeth Trawslywodraethol

## Diweddariad cynnydd terfynol

**Ionawr 2026**

# Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Arolygiaethau Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, gyda chymorth Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, adolygiad annibynnol o niwroamrywiaeth oedolion yn y system cyfiawnder troseddol, '*Neurodiversity in the criminal justice system: A review of evidence*'[1] (y 'Cydadolygiad o Dystiolaeth gan yr Arolygiaethau' wedi hyn). Cafodd yr adolygiad ei lywio gan alwad am dystiolaeth, ymgynghoriad ar brofiad personol o niwrowahaniaeth, digwyddiadau bwrdd crwn a gwaith maes o bell mewn heddluoedd, gwasanaethau prawf a charchardai.

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu Trawslywodraethol mewn ymateb ar 30 Mehefin 2022[2], a oedd yn nodi i ba raddau y cytunwyd ar y chwe argymhelliad a sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Rydym wedi ymrwymo i adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r cynllun gweithredu ac, ers hynny, rydym wedi cyhoeddi diweddariadau cynnydd chwe[3] mis a 12 mis.[4] Dyma ein diweddariad terfynol mewn ymateb i'r Cydadolygiad o Dystiolaeth gan yr Arolygiaethau sy'n adlewyrchu blaenoriaeth y Llywodraeth i ddarparu gwasanaethau tecach a mwy ymatebol i'r rheini sydd ag anghenion niwrowahanol.

Ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Niwroamrywiaeth, mae adolygiadau pellach wedi ystyried y cymorth sydd ar gael i bobl niwrowahanol ar draws y Llywodraeth a'r system cyfiawnder troseddol, ar ffurf y tasglu ADHD Annibynnol, adolygiad y Prif Swyddog Meddygol o iechyd carcharorion a'r rheini sydd ar brawf, ac adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder ar adsefydlu mewn carchardai. Nododd adolygiad y Prif Swyddog Meddygol fod "cynnydd cyffredinol wedi bod o ran ymwybyddiaeth sefydliadol ac ymhlith staff o'r nifer uchel o bobl niwrowahanol yn y carchar, a'r anghenion a'r gofynion cymorth posibl" a bod "camau gweithredu a mentrau amrywiol wedi cael eu rhoi ar waith mewn ymateb i argymhellion adolygiad annibynnol yr arolygiaeth".[5]

[1] https://hmicfrs.justiceinspectorates.gov.uk/publications/neurodiversity-in-the-criminal-justice-system/
[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/62bd9c26e90e075f2ac6045d/MoJ_Neurodiversity_Action_Plan_30_06_2022__001_.pdf
[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/63d002438fa8f53fe8067133/MoJ_Neurodiversity_Action_Plan_Six_Month_Final__edit_.pdf
[4] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65085a4d22a783000d43e7c6/ND_Update_Action_Plan_Letter_September_2023.pdf
[5] https://www.gov.uk/government/publications/the-health-of-people-in-prison-on-probation-and-in-the-secure-nhs-estate-in-england

Mae gwahanol agweddau ar yr adroddiadau hyn yn alinio ag amcanion y Cynllun Gweithredu Niwroamrywiaeth, yn enwedig o ran diagnosis a sgrinio, data a'r angen am waith Trawslywodraethol a phartneriaeth. Maent yn tynnu sylw at ble mae cynnydd wedi'i wneud ac yn rhoi cipolwg defnyddiol ar ble mae angen gwneud rhagor o waith. Mae'r Llywodraeth yn ystyried eu hargymhellion yn ofalus.

## Y Camau Nesaf

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gadw pobl yn ddiogel, gan bwysleisio tegwch a gwarantu hawliau unigolion. Mae'n ymdrech traws-system sy'n galw am ystod o wasanaethau yn y gymuned, y llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf. Fel yr amlinellir yn y diweddariad terfynol hwn, mewn partneriaeth ag asiantaethau plismona, cyfiawnder ac iechyd, mae ystod eang o waith yn mynd rhagddo i hybu galluogrwydd ymysg staff, i wella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, ac i wella'r cymorth sydd ar gael i unigolion.

Mae hwn yn ymrwymiad parhaus, ac rydym yn benderfynol o barhau i wella'r cymorth i unigolion niwrowahanol ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac yn ehangach. Dros y 12 mis nesaf, bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yn parhau i wella ymarferoldeb a gwreiddio'r defnydd o wasanaeth digidol newydd a gyflwynwyd ym mis Hydref 2025, sy'n galluogi gwybodaeth allweddol am anghenion carcharorion, gan gynnwys canlyniadau sgrinio ac addasiadau gofynnol, i gael ei chofnodi a'i rhannu ar draws ystâd y carchardai.

Rydym hefyd yn cydnabod, er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran y cymorth a gynigir mewn carchardai, y bydd y Gwasanaeth Prawf yn chwarae rhan fwyfwy hanfodol wrth i'r Llywodraeth geisio cyflawni argymhellion craidd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol.[6] O ganlyniad, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y gwasanaeth prawf i archwilio opsiynau wedi'u targedu ar gyfer unigolion niwroamrywiol, gan ystyried y pwysau y mae'r Gwasanaeth Prawf yn ei wynebu. Yn benodol, byddwn yn dod ag arbenigedd a phrofiad bywyd at ei gilydd drwy sianeli ac adnoddau presennol, er mwyn deall y bylchau yn y maes hwn yn well. Bydd yr ymarfer cwmpasu hwn yn parhau yn 2026. Ar ôl ei gwblhau, bydd yn darparu dull cydlynol i'r HMPPS o fynd i'r afael ag anghenion y rheini yn ein gofal sy'n niwrowahanol ym mhob lleoliad.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid Trawslywodraethol i gysoni ein blaenoriaethau yng ngoleuni adolygiadau mwy diweddar sy'n effeithio ar bobl niwrowahanol yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Adroddiad y Tasglu ADHD Annibynnol,

[6] https://www.gov.uk/government/publications/independent-sentencing-review-final-report

adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ac ymateb y Llywodraeth sydd ar ddod i adroddiad Pwyllgor Deddf Awtistiaeth Tŷ'r Arglwyddi 2009, '*Time to deliver: The Autism Act 2009 and the new strategy*'[7].

# Cyflawniadau Allweddol o dan y Llywodraeth hon

Mae’r adran hon yn amlinellu rhai o gyflawniadau allweddol y Llywodraeth hon. Mae'r tabl llawn o ddiweddariadau i'w weld yn **Atodiad A**.

## Ymyrraeth gymunedol ac ymyrraeth gynnar

- Arweiniodd GIG Lloegr raglen ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) i gynyddu'r defnydd o Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol. Sefydlodd Arbenigwr Niwroamrywiaeth, a ariannwyd gan yr MoJ, nifer o argymhellion ar gyfer cefnogi pobl niwrowahanol sydd wedi cael eu dedfrydu i Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol. Cytunwyd ar yr holl argymhellion a'u rhoi ar waith. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd yn 2025.[8]
- Yn ogystal, cynhaliodd GIG Lloegr ymarfer meincnodi cenedlaethol ar anabledd dysgu ac awtistiaeth, lle'r oedd gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio yn ateb cyfres o gwestiynau ar lefel gwasanaeth a staff, gyda'r nod o ganfod i ba raddau y mae gwasanaethau'n bodloni disgwyliadau o ran polisi ac arferion.
- Am y tro cyntaf, mae GIG Lloegr wedi cyhoeddi gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesiadau ADHD ar lefel genedlaethol, gyda'r datganiad cyntaf ym mis Mai 2025, fel rhan o'i gynllun gwella data ADHD. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn arwain Cynllun Gweithredu Trawslywodraethol ar Anafiadau Caffaeledig i'r Ymennydd i gefnogi canlyniadau gwell i unigolion sydd wedi cael Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd, eu teuluoedd a'u gofalwyr, gan gynnwys y rheini yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun gweithredu yn hanner cyntaf 2026.
- Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) wedi cytuno ar safonau data newydd i wella'r gwaith o reoli gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion niwroamrywiol. Bydd y safonau hyn yn darparu arweiniad i bob heddlu ar gasglu data yn eu systemau ar gyfer gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd, gan gefnogi gwell ymarfer a chysondeb.

---

[7] New autism strategy must deliver change for autistic people - Committees - UK Parliament

[8] https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/02645505241307647

## Carchardai a’r Gwasanaeth Prawf

- Pan gyhoeddwyd y cynllun gweithredu ym mis Mehefin 2022, roeddem wedi recriwtio Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth mewn pedwar carchar yn unig. Mae'r rôl bellach wedi cael ei chyflwyno'n llwyddiannus ar draws y gwasanaeth carchardai ac mae gwaith Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth wedi cael ei gydnabod fel enghraifft o arfer cadarnhaol nodedig mewn nifer o adroddiadau Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP), gan gynnwys Carchar Ei Fawrhydi (CEF) SEND, CEF Kirklevington Grange a CEF Lewes.
- Er mwyn gwella arferion sgrinio carchardai, cyflwynwyd adnodd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ym mis Hydref 2025 fel rhan o'r Gwasanaeth Addysg Carcharorion newydd. Mae'r adnodd hwn yn nodi cryfderau unigolion, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, yn ogystal â pha addasiadau allai helpu i'w cefnogi. Bydd canlyniadau'r adnodd sgrinio hwn yn llywio cymorth ar draws carchardai wrth i ddatblygiadau i systemau digidol presennol, gan gynnwys integreiddio canlyniadau sgrinio i Gynlluniau Dysgu a Gwaith digidol, sicrhau bod y canlyniadau yn hygyrch i staff perthnasol ar draws ystad y carchar, gan arwain at ddull mwy cydlynol o ymdrin â gofal iechyd mewn carchardai.
- Mae gan HMPPS nifer cynyddol o garchardai gydag adeiniau neu unedau arbenigol sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion unigolion niwrowahanol, gan gynnwys yn CEF Pentonville, CEF Abertawe, CEF Lewes a CEF Lancaster Farms.
- Roedd adroddiad y Prif Swyddog Meddygol ar iechyd unigolion yn y carchar, ar brawf ac yn ystad ddiogel y GIG yn Lloegr, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025, yn cydnabod “gwelliant cyffredinol” o ran ymwybyddiaeth o anghenion sy'n gysylltiedig â niwrowahaniaeth mewn carchardai. Cafodd rhanbarthau Iechyd a Chyfiawnder GIG Lloegr £7m rheolaidd ychwanegol i'w ddefnyddio ar lwybrau gofal iechyd niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl mewn carchardai. Defnyddiwyd y cyllid i gomisiynu amrywiaeth eang o gymorth, fel staff mwy arbenigol, rhaglenni hyfforddi pwrpasol ar awtistiaeth, niwroamrywiaeth a chyfathrebu, cymhorthion synhwyraidd a mathau eraill o gymhorthion addasiadau rhesymol, ymysg cynlluniau eraill.
- Yn ogystal, mae GIG Lloegr wedi cynnal ymarfer meincnodi cenedlaethol ar anabledd dysgu ac awtistiaeth, lle'r oedd gwasanaethau Gofal Iechyd Carchardai yn ateb cyfres o gwestiynau ar lefel gwasanaeth a staff, gyda'r nod o ganfod i ba raddau y mae gwasanaethau'n bodloni disgwyliadau o ran polisi ac arferion.
- Yng Nghymru, mae pob Uned Gyflawni’r Gwasanaeth Prawf wedi cael offer ac adnoddau a argymhellwyd gan y darparwr niwroamrywiaeth i gefnogi staff ac unigolion sydd ar brawf, ac mae hybiau neu ystafelloedd niwroamrywiaeth pwrpasol wedi cael eu sefydlu ym mhob Uned Gyflawni’r Gwasanaethau Prawf, gan ddarparu mannau hygyrch i staff a defnyddwyr gwasanaeth yn ôl yr angen.

# Atodiad A. Diweddariadau i'r Cynllun Gweithredu

Mae'r atodiad hwn yn nodi ein camau gweithredu Trawslywodraethol i fynd i'r afael â'r argymhellion a awgrymwyd ar y cyd gan yr Arolygiaethau ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu. Rydym wedi **cwblhau 19 o'r 20 cam gweithredu.**

## Argymhelliad 1 (Cytunwyd yn rhannol)

Er mwyn gwella canlyniadau i bobl niwrowahanol yn y system cyfiawnder troseddol, mae angen dull gweithredu cydlynol a thrawslywodraethol. Er mwyn darparu'r arweiniad a'r cyfarwyddyd angenrheidiol, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder weithio gyda'r Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol drosfwaol. Dylid datblygu'r strategaeth hon ar y cyd â phobl sydd â phrofiad personol o niwrowahaniaeth.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn cytuno'n llwyr â rhan gyntaf yr argymhelliad hwn. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) wedi sefydlu Gweithgor Trawslywodraethol (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru, yr Adran Addysg) o Uwch Swyddogion, a Grŵp Gweithredol (MoJ, HMPPS, HMCTS, CPS, y Swyddfa Gartref, y GIG, NPCC) o'r asiantaethau perthnasol, i gydnabod yr angen am ymdrech traws-system i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pobl niwrowahanol ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol.

Fodd bynnag, cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn oherwydd bod angen i adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth weithio gyda'i gilydd i fapio'r ffrydiau gwaith presennol ac yna asesu ai strategaeth niwroamrywiaeth yw'r ffordd orau ymlaen. Bydd y Gweithgor Trawslywodraethol yn mapio'r polisïau, y strategaethau a'r ffrydiau gwaith presennol sy'n ymwneud â niwroamrywiaeth sy'n berthnasol i'r System Cyfiawnder Troseddol. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cael ei gefnogi gan y Grŵp Gweithredol a fydd yn dod â'r asiantaethau lefel gweithredol o'r holl adrannau perthnasol at ei gilydd i sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn ystyried niwrowahaniaeth ar bob cam.

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Er mwyn datblygu a gweithredu gwelliannau ar draws y system, bydd y Gweithgor Trawslywodraethol a'r Grŵp Gweithredol yn ystyried pob un o | • Mae sefydlu'r Gweithgor Lefel Gweithredol a'r Gweithgor Trawslywodraethol, dan arweiniad yr MoJ, wedi cryfhau'r berthynas waith rhwng asiantaethau iechyd, cyfiawnder a phlismona allweddol ac wedi gwella'r cydgysylltu. Mae wedi | |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
| --- | --- | --- |
| gamau allweddol y System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys cyswllt cyntaf unigolyn â'r Heddlu, gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio, llysoedd a dedfrydu, goruchwyliaeth prawf, carchar ac, yn olaf, adsefydlu yn ôl yn y gymuned.<br><br>Byddwn yn sefydlu a oes angen strategaeth niwroamrywiaeth yn benodol ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol, neu a oes modd ehangu'r polisïau a / neu'r strategaethau presennol sydd ar waith ar gyfer pobl niwrowahanol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol. | chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o weithredu'r ymrwymiadau a nodir yn y ddogfen hon.<br>◦ Cyfarfu'r **Gweithgor Lefel Gweithredol** bum gwaith yn ystod y broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu i drafod y cymorth sydd ar gael i bobl niwrowahanol ar bob cam o'r System Cyfiawnder Troseddol.<br>◦ Cyfarfu **Gweithgor Trawslywodraethol yr uwch swyddogion** drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu i gyfarwyddo a goruchwylio'r broses o'i roi ar waith. Yn ddiweddar, fe wnaethant nodi'r camau nesaf ar gyfer y dyfodol, sy'n cynnwys arferion gorau, casglu tystiolaeth a rhannu data.<br>• Buom yn archwilio dichonoldeb strategaeth. Fodd bynnag, o ystyried y strategaethau parhaus ar draws y Llywodraeth, penderfynasom beidio â mynd ar drywydd hyn, gan y byddai wedi creu gorgyffwrdd sylweddol. | **WEDI CWBLHAU** |
| Bydd **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ)** yn datblygu ymyriadau gwell i gefnogi anghenion pobl niwrowahanol sy'n dod drwy'r llys. | • Mae GLlTEF wedi datblygu a chymeradwyo Strategaeth Gyfeirio, sy'n nodi sut bydd GLlTEF yn cysylltu defnyddwyr ag anghenion ychwanegol â darparwyr cymorth allanol.<br>• Lansiodd GLlTEF y Cynllun Blodau Haul Anableddau Cudd ym mis Gorffennaf 2023. Mae laniardiau ar gael ym mhob adeilad cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd, yn ogystal â staff a deiliaid swyddi barnwrol. Mae gwisgo laniard yn galluogi person i nodi'n gynnil y gallai fod angen cymorth ychwanegol arno, ac mae staff wedi'u hyfforddi i adnabod y laniard, a byddant yn gofyn sut y gallant helpu rhywun. | **WEDI CWBLHAU** |
| Bydd **GLlTEF a'r MoJ** yn mapio ac yn gwerthuso prosesau sgrinio cyfredol a | • Bu'r MoJ a thîm Lleihau Aildroseddu GLlTEF yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Addysg Carchardai i adolygu a gwella'r adnoddau | **WEDI CWBLHAU** |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| gweithdrefnau rhannu data, ac yn treialu Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth. | presennol sy'n cael eu defnyddio mewn carchardai ac yn y gwasanaeth prawf. Fe wnaethant archwilio prosesau sgrinio niwroamrywiaeth i helpu i lywio gofynion y Gwasanaeth Addysg Carcharorion, dysgu ar y cyd ac arferion gorau yn y dyfodol ar draws holl asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol i lywio arferion comisiynu a rhannu data yn y dyfodol.<br><br>• Cyflwynwyd adnodd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ym mis Hydref 2025 fel rhan o'r Gwasanaeth Addysg Carcharorion newydd. Mae'r adnodd hwn yn nodi cryfderau unigolion, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, yn ogystal â pha addasiadau allai helpu i'w cefnogi.<br><br>• Mae GLlTEF yn parhau i weithio i wella ein prosesau casglu data a rhannu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys integreiddio canlyniadau sgrinio ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion ychwanegol i greu Cynlluniau Dysgu a Gwaith digidol, i gefnogi cynnydd Addysg, Sgiliau a Gwaith carcharorion drwy'r ddalfa.<br><br>• Mae rôl y Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth wedi cael ei chyflwyno'n llwyddiannus ar draws y gwasanaeth carchardai. Mae'r Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth yn gyfrifol am wella prosesau adnabod a chymorth i garcharorion ag anghenion niwrowahanol. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod carcharorion niwrowahanol yn gallu cael mynediad at gyfleoedd addysg, sgiliau a gwaith yn y carchar, ac i baratoi ar gyfer eu rhyddhau'n llwyddiannus i'r gymuned. | |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Bydd **Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu** yn edrych ar enghreifftiau o ba addasiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ar gyfer pobl niwrowahanol sy'n dod i gysylltiad â'r heddlu. | • Mae Gweithgor yr Heddlu, sy'n cynnwys swyddogion, staff a rhanddeiliaid eraill yr heddlu, wedi cynhyrchu cyfeiriadur arferion gorau i dynnu sylw at enghreifftiau o hyfforddiant, addasiadau rhesymol ac arloesiadau.<br><br>• Drwy adolygu asesiadau risg heddluoedd, a gyda mewnbwn gan bobl sydd â phrofiad bywyd, nodwyd bod pob heddlu'n gofyn i unigolion a oes ganddynt unrhyw anghenion lles a chyfathrebu fel rhan o'r broses gofrestru yn y ddalfa. | **WEDI CWBLHAU** |
| Bydd yr **Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn archwilio'r bylchau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal y tu hwnt i'r Strategaeth Awtistiaeth bresennol mewn perthynas â niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol. | • Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bwriadu cyhoeddi'r Cynllun Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd yn hanner cyntaf 2026.<br><br>• Mae tîm Iechyd a Chyfiawnder GIG Lloegr wedi cymryd camau amrywiol i helpu i wella mynediad at y gofal iechyd y mae'n ei gomisiynu yn y System Cyfiawnder Troseddol, a chanlyniadau pobl niwrowahanol (gweler Cyflawniadau Allweddol).<br><br>• Mae gan GIG Lloegr raglen ADHD sydd wedi'i chynllunio i ddeall a mynd i'r afael â materion ADHD cenedlaethol / cyflenwi gwasanaethau ADHD cenedlaethol, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn ogystal, fe wnaeth y Tasglu ADHD Annibynnol gyhoeddi ei argymhellion ym mis Tachwedd 2025. Nid yw GIG Lloegr na'r Llywodraeth wedi ymateb yn ffurfiol eto.<br><br>• Mae Byrddau Iechyd GIG Cymru yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys anghenion iechyd pobl niwrowahanol.<br><br>Mae'r Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai ar waith; | **WEDI CWBLHAU** |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| | cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, HMPPS, Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n nodi blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwella iechyd carchardai ac yn datgan y dylai "carchar fod yn rhywle lle gall unigolyn newid ei fywyd" ac y gall "y rheini sydd yn y carchar fyw mewn amgylcheddau sy'n hybu iechyd a lles, a lle gellir cyrchu gwasanaethau iechyd i safon gyfatebol i'r rheini yn y gymuned". Mae blaenoriaethau'r Cytundeb Partneriaeth yn cynnwys datblygu Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau a safonau gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai, a bydd y ddau yn cynnwys ffocws ar bobl niwrowahanol. | |
| **Bydd adrannau'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru** yn ystod y cam archwilio i nodi synergeddau rhwng adrannau'r Llywodraeth ac enghreifftiau o arferion gorau. | • Mynychodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru y Gweithgor Trawslywodraethol i helpu i lywio ein dull gweithredu cyffredinol a rhannu arferion gorau.<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad galw a chapasiti o wasanaethau niwroamrywiaeth ac, mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad, mae rhaglen gwella niwrowahaniaeth wedi cael ei sefydlu ac mae ei iteriad presennol i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Mae hyn yn ystyried anghenion pobl niwrowahanol yng Nghymru sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Troseddol, yn y cyd-destun datganoledig.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ADHD i fwrw ymlaen â 4 ffrwd waith, gan gynnwys datblygu cynllun peilot yn y carchar. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhelir arolwg i gasglu gwybodaeth am feysydd allweddol fel cyffredinrwydd, y cymorth sydd ar gael, a defnyddio meddyginiaeth yn y carchar ac ar ôl rhyddhau. | **WEDI CWBLHAU** |
| Bydd yr **Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol** yn archwilio lle gallai fod bylchau yn y prosesau presennol ac yn nodi datrysiadau mewn pryd ar gyfer | • Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi cymryd camau i wella cymorth i gleientiaid niwroamrywiol drwy ddiweddaru canllawiau i staff gweithredol ar asesu'r meini prawf 'Budd Cyfiawnder' ar gyfer ymgeiswyr niwroamrywiol. | |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| diweddariad nesaf y cynllun gweithredu hwn. | • Mae sesiynau ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth wedi cael eu cyflwyno i staff, gan gynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yng Ngwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS).<br>• Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi codi ymwybyddiaeth o sut mae iaith a phrosesau'n effeithio ar unigolion niwrowahanol, gan arwain at newidiadau o ran cyfathrebu â chleientiaid.<br>• Mae ymdrechion pellach yn cynnwys adolygu llythyrau gofal cleientiaid i sicrhau eglurder a chynhwysiant, a gwreiddio hyfforddiant niwroamrywiaeth yn ein cynnig dysgu ehangach. | **WEDI CWBLHAU** |

## Argymhelliad 2 (Cytunwyd yn rhannol)

Dylid cyflwyno adnodd sgrinio cyffredin i'w ddefnyddio'n gyffredinol yn y system cyfiawnder troseddol, wedi'i ategu gan brotocol rhannu gwybodaeth sy'n nodi sut y dylid rhannu gwybodaeth yn briodol o fewn asiantaethau, a rhyngddynt, i sicrhau bod addasiadau angenrheidiol a chymorth ychwanegol yn cael eu darparu i unigolion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn cytuno'n llwyr i adolygu ein defnydd presennol o'r adnodd sgrinio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Fodd bynnag, cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn oherwydd mae'n bosibl na fyddai cyflwyno adnodd sgrinio cyffredin ym mhob lleoliad ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn briodol. Bydd rhagor o waith cwmpasu'n cael ei wneud i bennu pa adnoddau sgrinio sy'n addas i'r diben ar draws llu o leoliadau (e.e. dalfa'r heddlu yn erbyn sesiynau cynefino carchardai).

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Bydd **Gweithgor Trawslywodraethol dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder** yn ystyried yr angen a'r dichonoldeb o gyflwyno adnodd sgrinio cyffredin. Mae hyn yn cynnwys ystyried arferion sgrinio presennol asiantaethau partner, diogelwch gwybodaeth, dibenion rhannu gwybodaeth a chydymffurfio â GDPR, dyletswyddau cyfreithiol eraill ar rannu data, cyfrifoldebau polisi datganoledig Llywodraeth Cymru, yn ogystal â sefydlu a yw'r systemau TG a gwybodaeth presennol a ddefnyddir ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn gydnaws ac yn gallu rhannu'r math hwn o wybodaeth. | • Fe wnaethom adolygu sut roeddem yn defnyddio adnoddau sgrinio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Ystyriodd y Gweithgor Trawslywodraethol yr angen a'r dichonoldeb o gyflwyno adnodd sgrinio cyffredin a'r hyn sy'n briodol ar gyfer pob lleoliad unigol, gan gynnwys ymarferoldeb, defnydd, fforddiadwyedd a gwerth am arian.<br><br>• Daethom i'r casgliad bod angen dull cyson o nodi anghenion ar draws asiantaethau er mwyn sicrhau bod modd rhannu data'n effeithiol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar feini prawf diagnostig, dylai'r System Cyfiawnder Troseddol geisio nodi pa addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i gefnogi pobl niwrowahanol ar bob cam o'r broses, a dylid storio a rhannu'r wybodaeth hon yn gywir.<br><br>• Fodd bynnag, byddai defnyddio un adnodd ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn anaddas oherwydd mae'r amser sydd ar gael i nodi anghenion unigolyn a'r addasiadau rhesymol y gellir eu rhoi ar waith yn amrywio ar bob cam o'r system. | **WEDI CWBLHAU** |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Mae **HMPPS** yn mapio ac yn ystyried nifer o wahanol ddulliau sgrinio i nodi'r tebygolrwydd o nodweddion niwrowahanol. Nododd yr ymarfer mapio hwn weithgareddau allweddol i'w cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill (gan gynnwys GIG Lloegr / NHS Improvement a'r Trydydd Sector lle bo hynny'n berthnasol) a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddefnyddio adnodd sgrinio priodol ar draws yr ystad. | • Fel rhan o'r gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Addysg Carchardai, fe wnaethom gymryd camau i adolygu a gwella'r adnoddau presennol sy'n cael eu defnyddio yn y carchar ac yn y gwasanaeth prawf. Fe wnaethant archwilio prosesau sgrinio niwroamrywiaeth i helpu i lywio gofynion y Gwasanaeth Addysg Carcharorion yn y dyfodol, a dysgu ar y cyd ac arferion gorau ar draws holl asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol i lywio arferion comisiynu a rhannu data yn y dyfodol.<br><br>• Cyflwynwyd adnodd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ym mis Hydref 2025 fel rhan o'r Gwasanaeth Addysg Carcharorion newydd. Mae'r adnodd hwn yn nodi cryfderau unigolion, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddynt, yn ogystal â pha addasiadau allai helpu i'w cefnogi.<br><br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu systemau digidol presennol ymhellach i wella hygyrchedd ac effeithlonrwydd rhannu data niwroamrywiaeth yn HMPPS. Bydd hyn yn lleihau nifer y profion sgrinio dyblyg ac yn gwella ansawdd y cymorth i garcharorion.<br><br>• Mae gan HMPPS a GIG Lloegr ddatganiad ar y cyd y cytunwyd arno sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau asiantaethau a staff ynghylch sgrinio niwroamrywiaeth ac asesiadau diagnostig posibl mewn carchar i oedolion, a hefyd rhagor o gyfathrebu ynghylch rhannu canlyniadau'r adnodd Anghenion Dysgu Ychwanegol uchod. | **WEDI CWBLHAU** |

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Bydd **Gweithgor yr Heddlu** yn nodi ac yn gweithredu dull o asesu risg yn y ddalfa sy'n nodi niwrowahaniaeth posibl a'r angen am addasiadau rhesymol. | • Drwy adolygu asesiadau risg heddluoedd a gyda mewnbwn gan bobl sydd â phrofiad bywyd, roedd Gweithgor yr Heddlu, sy'n cynnwys swyddogion, staff a rhanddeiliaid eraill yr heddlu, yn nodi dull o asesu risg yn y ddalfa sy'n nodi niwrowahaniaeth posibl a'r angen am addasiadau rhesymol.<br><br>• Nodwyd bod pob heddlu'n gofyn i unigolion a oes ganddynt unrhyw anghenion lles a chyfathrebu fel rhan o'r broses gofrestru yn y ddalfa. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn gan bobl â phrofiad bywyd. | **WEDI CWBLHAU** |

## Argymhelliad 3. (Cytunwyd yn rhannol)

Dylid casglu a chyfuno data sgrinio yn systematig er mwyn darparu asesiad mwy cywir o ba mor gyffredin yw niwrowahaniaeth i lywio'r gwaith o ddadansoddi anghenion a chynllunio gwasanaethau ar bob lefel yn y system cyfiawnder troseddol.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn cytuno ag egwyddor yr argymhelliad hwn. Fodd bynnag, cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn gan ei fod yn dibynnu ar ganlyniad cam gweithredu dau.

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Bydd y **Gweithgor Trawslywodraethol** yn penderfynu i ba raddau y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar systemau TG perthnasol, beth yw pwrpas casglu'r data a beth y gall ei gynnig o ran manteision. Rhaid i ni hefyd nodi sut mae echdynnu data i ddarparu asesiad mwy cywir o ba mor gyffredin yw niwrowahaniaeth.<br><br>Bydd y **Gweithgor Gweithredol** yn gweithio i ddeall a oes modd rhannu data ar draws systemau TG rhyngadrannol. | • Edrychodd y Gweithgor Gweithredol ar ffyrdd y gallwn wella mwy o gydgysylltu a rhannu data. Canfuwyd nad yw data sgrinio'n cael ei gofnodi'n systematig yn nalfa'r heddlu, ac nad yw sgrinio'n cael ei gynnal yn unffurf fel rhan o'r broses cyn-dedfrydu. Mae sgrinio yn orfodol unwaith y bydd rhywun ar brawf neu'n dod i'r carchar, er bod ansawdd y data'n dal yn anghyson.<br><br>• Rydym hefyd wedi archwilio sut y gellir defnyddio hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i sicrhau bod staff yn gwybod pryd mae'n hanfodol rhannu gwybodaeth am niwrowahaniaeth rhwng asiantaethau.<br><br>• Rydym yn parhau i wella llwybrau adrodd data presennol ac argaeledd data ar gyffredinrwydd niwrowahaniaeth yn HMPPS. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaeth digidol newydd sy'n galluogi gwybodaeth allweddol am anghenion carcharorion, gan gynnwys canlyniadau sgrinio a chyflyrau a hunan-ddatganwyd, i gael ei chofnodi a'i rhannu â staff perthnasol ar draws y gwasanaeth carchardai. Drwy wella methodoleg casglu data, adrodd dadansoddol a rhannu gwybodaeth, mae'r HMPPS yn datblygu dull safonol o drin data a fydd yn gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol ac yn helpu rhanddeiliaid i ddeall a rhagweld yn well pa mor gyffredin yw niwrowahaniaeth, ac anghenion poblogaeth y carchardai. | **YN MYND RHAGDDO**<br><br>*Mae cymhlethdod y bensaernïaeth data wedi ei gwneud yn anodd cael dealltwriaeth gadarn o gyffredinrwydd niwrowahaniaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol.* |

## Argymhelliad 4. (Cytunwyd yn rhannol)

Dylid datblygu rhaglen codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant arbenigol a'i chyflwyno i staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyfiawnder troseddol. Ar gyfer staff rheng flaen, dylai'r dysgu hwn fod yn eang, yn orfodol, yn codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrowahanol a sut maen nhw'n effeithio ar gyfathrebu, a chael eu cefnogi gan strategaethau ymarferol ar gyfer gweithio gyda phobl niwrowahanol. Dylid darparu hyfforddiant mwy arbenigol i staff y mae eu rolau'n gofyn am hynny. Dylid datblygu a chyflwyno'r rhaglen mewn ymgynghoriad â phobl sydd â phrofiad personol o niwrowahaniaeth.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym yn cytuno'n llwyr i godi ymwybyddiaeth, gwella hyfforddiant ac annog pob adran ac asiantaeth iechyd, cyfiawnder a phlismona i godi ymwybyddiaeth ymysg eu staff eu hunain.

Fodd bynnag, cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn, oherwydd er bod holl adrannau'r Llywodraeth, asiantaethau a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol, mae angen mwy o waith mapio, a fydd yn cael ei wneud drwy'r Gweithgor Trawslywodraethol. Rhaid i bob adran nodi pa hyfforddiant niwroamrywiaeth, os o gwbl, maen nhw'n ei hyrwyddo ar hyn o bryd, pa gynlluniau, os o gwbl, sydd ganddynt i ddarparu hyfforddiant, a sefydlu pa gyfleoedd sydd ar gael i ddarparu pecynnau hyfforddi cyfredol gan ddefnyddio dull rhyngadrannol lle bo hynny'n briodol.

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Comisiynwyd **Sgiliau er Cyfiawnder** gan **HMPPS** i ddatblygu Fframwaith Cymwyseddau Craidd Iechyd, Gofal a Lles Oedolion ar gyfer Staff Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf.<br><br>Bydd y fframwaith yn cynnwys cymwyseddau craidd sy'n disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol ar gyfer y rheini sy'n gweithio gydag | • Mae HMPPS a Sgiliau er Cyfiawnder wedi datblygu'r Fframwaith Cymwyseddau Craidd Iechyd, Gofal a Lles Oedolion, sy'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda phobl yn ein gofal, boed hynny'n niwrowahanol neu'n niwronodweddiadol.<br><br>• Mae fersiwn terfynol y fframwaith wedi cael ei gymeradwyo ac mae trefniadau'n cael eu gwneud i'w gyhoeddi. | **WEDI CWBLHAU** |

| | | |
|---|---|---|
| unigolion agored i niwed yn y ddalfa neu'r carchar. | | |
| Mae'r **MoJ** wedi ymrwymo i gyflwyno 'Pecyn Hyfforddi Niwroamrywiaeth Cenedlaethol' erbyn diwedd 2022 i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. | • Mae'r HMPPS wedi datblygu 'Pecyn Hyfforddi Niwroamrywiaeth Cenedlaethol' sydd ar gael i'r holl staff rheng flaen yn y carchar ac yn y gwasanaeth prawf. Cafodd y pecyn cymorth ei ddatblygu gan, a gyda staff niwrowahanol, mewn cydweithrediad â rhwydweithiau staff HMPPS ac MoJ | **WEDI CWBLHAU** |
| Bydd yr **MoJ** yn annog adrannau eraill y Llywodraeth ac asiantaethau statudol i gynyddu hyfforddiant arbenigol i unigolion yn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd hyfforddiant manwl yn amodol ar angen, adnoddau addas, ac asiantaethau unigol i'w roi ar waith. | **Plismona**<br>• Mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Plismona i archwilio cynnwys canllawiau niwroamrywiaeth ym mhob un o'r dogfennau Ymarfer Proffesiynol Cymeradwy.<br><br>• Mae llawer o ddogfennau APP (Ymarfer Proffesiynol Cymeradwy) sy'n ymdrin â phob agwedd ar blismona. Adolygir y rhain ar raglen dreigl, ac mae hyn yn cynnwys ymgynghori'n eang ag aelodau a phartïon sydd â diddordeb. Mae'r adolygiadau hyn yn gyfle i gael diweddariadau niwroamrywiaeth penodol. Bydd cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o niwroamrywiaeth ym maes plismona yn helpu i ddatblygu gwasanaeth mwy cynhwysol i'r cyhoedd.<br><br>• O fewn Canolfan Genedlaethol Arweinyddiaeth yr Heddlu, mae penderfynoldeb i godi ymwybyddiaeth a hyder pob arweinydd o ran amrywiaeth a chynhwysiant, ond hefyd i helpu i gynyddu amrywiaeth a thalent yn y biblinell arweinyddiaeth, yn enwedig y rheini sy'n cael eu tangynrychioli ym maes plismona. Mae anabledd a niwroamrywiaeth yn dod o fewn diffiniad y Coleg o dangynrychiolaeth.<br><br>• Mae'r cwricwlwm ar gyfer plismona yn amlinellu'r meysydd allweddol y mae angen i heddluoedd eu haddysgu, eu hysbysu a'u trafod wrth hyfforddi a dyrchafu swyddogion a staff. Mae'n cynnwys y 'lleiafswm' o gynnwys a ddisgwylir gan heddluoedd wrth greu pecynnau hyfforddi. | **WEDI CWBLHAU** |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae niwroamrywiaeth yn cael sylw yn y cwricwlwm ac mae'n dod o fewn modiwl arweinyddiaeth gynhwysol y cwricwlwm.<br><br>• Ar ben hynny, mae llechres y Coleg Plismona, sy'n cefnogi heddluoedd i gyflawni'r Rhaglen Arweinwyr Rheng Flaen, yn cynnwys adnoddau niwroamrywiaeth. Mae'r rhaglen yn paratoi cynrychiolwyr ar gyfer symud ymlaen i rôl sarjant neu arweinydd rheng flaen drwy eu dysgu sut i ddylanwadu ar ddiwylliant cynhwysol a'i ddatblygu, herio gwahaniaethu ac ymddygiad amhriodol, a meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol â chymunedau.<br><br>**Dedfrydu**<br>• Cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllaw diffiniol newydd yn 2020 ar gyfer dedfrydu troseddwyr ag anhwylderau meddwl, anhwylderau datblygiadol ac amhariadau niwrolegol. Roedd hwn yn darparu canllawiau i farnwyr ac ynadon i'w helpu i ddedfrydu yn y maes cymhleth hwn, gan roi eglurder a thryloywder ynghylch y broses ddedfrydu ar gyfer y grŵp hwn o droseddwyr.<br><br>**Gofal Iechyd**<br>• Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn cyflwyno Hyfforddiant Gorfodol Oliver McGowan i gefnogi darparwyr sydd wedi cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal i fodloni eu gofyniad statudol o ran anabledd dysgu ac awtistiaeth. Mae rhan gyntaf yr hyfforddiant hwn - pecyn e-ddysgu - wedi cael ei chwblhau gan dros 3.4 miliwn o bobl. Bydd yr hyfforddiant hwn yn helpu i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddarparu gofal diogel a thosturiol i bobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu.<br>• Roedd Iechyd a Chyfiawnder GIG Lloegr hefyd wedi cynnal digwyddiad gyda'r holl wasanaethau sydd wedi cael eu comisiynu i hyrwyddo'r hyfforddiant, ac mae ymlyniad yn cael ei fonitro'n rhanbarthol. Mae rhai rhanbarthau hefyd wedi comisiynu pecynnau hyfforddiant niwroamrywiaeth, awtistiaeth a chyfathrebu pwrpasol ychwanegol ar gyfer y lleoliadau hyn. | **WEDI CWBLHAU** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Carchardai**<br>• Mae'r Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth a darparu hyfforddiant staff ar draws y gwasanaeth carchardai. Mae ffocws yr hyfforddiant yn cael ei arwain gan anghenion y carchar, y staff a'r carcharorion, ac mae'n cael ei ddatblygu i helpu i leihau'r risg o drais a defnyddio grym drwy ddull niwrowahanol sy'n ystyriol o drawma, ac arfogi staff â strategaethau ymarferol i ymateb yn briodol ac yn gynhwysol i garcharorion niwrowahanol.<br><br>• Mae staff o Garchar Berwyn wedi cael hyfforddiant am gymorth gan Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru. Mae Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig eraill wedi darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol i rai o'r staff yn yr ystadau diogel.<br><br>**Y Gwasanaeth Prawf**<br>• Mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wedi bod yn darparu gwasanaethau arbenigol, yn benodol ymyriadau un-i-un. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu hyfforddiant sydd ar gael i holl staff y gwasanaeth prawf, sydd wedi'i ddylunio i'w helpu i nodi cyflyrau niwrowahanol, y ffordd orau o gefnogi'r unigolion hyn, a'r materion penodol sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol.<br><br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n datblygu ac yn darparu hyfforddiant i bob sector. Maent wedi darparu hyfforddiant i dimau mewngymorth iechyd a phrawf. | **WEDI CWBLHAU** |
| Mae'r **gwasanaeth prawf** wedi comisiynu gwasanaethau niwroamrywiaeth arbenigol newydd mewn pedwar rhanbarth prawf: Swydd Efrog a Humber, Gogledd Orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De | • Mae'r gwasanaeth prawf wedi comisiynu gwasanaethau niwroamrywiaeth arbenigol newydd mewn pum rhanbarth prawf a fydd yn rhedeg am ddwy flynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn am 12 mis arall. Ar gyfer rhanbarthau prawf Swydd Efrog a Humber, Gogledd Orllewin Lloegr a De Orllewin Lloegr, dyfarnwyd y contract i'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol. Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr a Chymru, dyfarnwyd y contract i 3SC. Mae nifer o'r rhanbarthau hyn | |

| | | |
|---|---|---|
| Orllewin Lloegr. Mae'r contract wedi cael ei ddyfarnu i'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol am ddwy flynedd, gyda'r opsiwn o estyniad pellach o 12 mis. | wedi ymestyn y gwasanaethau i redeg tan fis Mawrth 2026, gyda'r bwriad o ymestyn y tu hwnt i hyn.<br><br>• Mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wedi bod yn darparu gwasanaethau arbenigol, yn benodol ymyriadau un-i-un. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth uniongyrchol i bobl sydd wedi cael diagnosis neu yr amheuir bod ganddynt gyflwr niwrowahanol ac sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â'u dedfryd, yn ogystal ag ymgynghoriadau achos gyda'u hymarferydd prawf i ddarparu cyngor a gwybodaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu hyfforddiant sydd ar gael i holl staff y gwasanaeth prawf, sydd wedi'i ddylunio i'w helpu i nodi cyflyrau niwrowahanol, y ffordd orau o gefnogi'r unigolion hyn, a'r materion penodol sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol.<br><br>• Yng Nghymru, comisiynodd y Gwasanaeth Prawf wasanaeth niwroamrywiaeth Cymru gyfan sy'n cefnogi pobl sydd ar brawf â'u hanghenion niwrowahanol, ni waeth beth fo'u diagnosis clinigol. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i gydymffurfio â gofynion y gwasanaeth prawf, mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol a chymryd rhan mewn rhaglenni. Mae hefyd yn cefnogi ymarferwyr i gynyddu eu hyder, eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth a'r cymorth a'r gwasanaethau ehangach sydd ar gael i unigolion niwrowahanol. | **WEDI CWBLHAU** |

## Argymhelliad 5. (Cytunwyd yn rhannol)

Dylid gwneud addasiadau i ddiwallu anghenion y rheini sydd â chyflyrau niwrowahanol drwy gydol y system cyfiawnder troseddol. Dylai adrannau a chyrff perthnasol weithio gyda'i gilydd i ragweld anghenion, a gwneud addasiadau wrth ragweld anghenion. Mae newidiadau syml a chost isel i greu amgylcheddau, cyfathrebiadau a diwylliant staff sy'n ystyriol o niwroamrywiaeth yn debygol o fod o fudd i'r rheini sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, beth bynnag fo'u cyflyrau niwrowahanol, a dylid eu gwneud cyn gynted â phosibl.

**Ymateb y Llywodraeth**

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddiwallu anghenion pobl niwrowahanol, a'n nod yw sicrhau bod addasiadau rhesymol ac ymddygiadol yn cael eu mabwysiadu drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, cytunir yn rhannol â'r argymhelliad hwn oherwydd ein bod wedi ein cyfyngu mewn rhai achosion gan yr amgylcheddau ffisegol mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol.

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Ym mis Hydref 2021, cyflwynodd y Rhaglen Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR) Arbenigwr Niwroamrywiaeth sy'n gallu cynnig arbenigedd clinigol o boblogaethau niwrowahanol am flwyddyn, wedi'i ariannu gan yr MoJ. Mae cynllun cyflawni yn arwain y gwaith hwn, a fydd yn arwain at fframwaith o argymhellion, i'w roi ar waith yn ystod 2022/23 gan ddarparu dull gweithredu cyson ledled Cymru a Lloegr. | • Sefydlodd arbenigwr niwroamrywiaeth Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol (CSTR) argymhellion allweddol ar gyfer cefnogi pobl niwrowahanol sydd â Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol, e.e. triniaeth camddefnyddio sylweddau neu driniaeth iechyd meddwl. Roedd y rôl hon yn sicrhau bod yr argymhellion allweddol i Ofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol yn cael eu rhoi ar waith ac yn edrych ar ffyrdd y gellid defnyddio'r argymhellion hyn ar draws y gwasanaeth prawf ehangach.<br><br>• Mae GIG Lloegr yn arwain rhaglen ar y cyd â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, HMPPS a'r MoJ i gynyddu'r defnydd o Ofynion Triniaeth Iechyd Meddwl, Gofynion Adsefydlu Cyffuriau a Gofynion Triniaeth Alcohol. Darparodd Arbenigwr Niwroamrywiaeth, a ariennir gan yr MoJ, arbenigedd clinigol am boblogaethau niwrowahanol ar draws y rhaglen Gofynion Triniaeth Dedfryd Gymunedol. Cynhyrchodd hyn fframwaith o argymhellion sydd wedi cael eu rhoi ar waith, gan ddarparu dull gweithredu cyson. | **WEDI CWBLHAU** |

| | | |
|---|---|---|
| | • Yn dilyn cytundeb traws-bartneriaeth, cytunwyd ar holl argymhellion y Gofyniad Triniaeth Dedfryd Gymunedol a'u rhoi ar waith. Cyhoeddwyd adroddiad cynnydd ym mis Ionawr 2025. | |
| Mae'r **MoJ** yn hyrwyddo achrediad awtistiaeth ar draws yr ystad carchardai i wneud amgylchedd y carchar yn fwy cefnogol i bobl niwrowahanol. | • Mae'r MoJ wedi hyrwyddo achrediad awtistiaeth ar draws yr ystad carchardai i wneud amgylchedd y carchar yn fwy cefnogol i bobl niwrowahanol.<br><br>• Yn dilyn adborth gan staff carchardai a thîm Niwroamrywiaeth HMPPS ynghylch y broses achredu a'r heriau a'r rhwystrau a wynebir mewn amgylcheddau gwarchodol, mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wedi diweddaru'r opsiynau llwybr achredu sydd ar gael i garchardai.<br><br>• Mae'r rhain bellach yn cynnwys llwybrau arbenigol a chynhwysiant, wedi'u teilwra i gyd-destun penodol pob carchar a'r cymorth sydd ar gael i garcharorion niwrowahanol.<br><br>• Mae saith carchar eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan yn un o'r llwybrau achredu sydd wedi'u diweddaru, ac mae HMPPS yn parhau i weithio gyda'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol i gefnogi carchardai i gymryd rhan yn y broses hon lle bo hynny'n fuddiol. | **WEDI CWBLHAU** |
| Mae **Gweithgor yr Heddlu** yn cynhyrchu cyfeiriadur arferion gorau i dynnu sylw at enghreifftiau o hyfforddiant, addasiadau rhesymol ac arloesiadau. Bydd y cyfeiriadur yn cael ei gwblhau a'i anfon at bob heddlu ddechrau 2023. | • Mae Gweithgor yr Heddlu, sy'n cynnwys swyddogion, staff a rhanddeiliaid eraill yr heddlu, wedi cynhyrchu cyfeiriadur arferion gorau i dynnu sylw at enghreifftiau o hyfforddiant, addasiadau rhesymol ac arloesiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrowahanol. Mae'n cynnwys enghreifftiau ymarferol o gymorth i wella canlyniadau i bobl niwrowahanol sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol.<br><br>• Bydd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn cyhoeddi cyfeiriadur arferion gorau maes o law. | **WEDI CWBLHAU**<br><br>. |
| Mae'r **MoJ** yn treialu adnoddau digidol i wella'r cymorth i bobl niwrowahanol a gwerthuso'r hyn sy'n gweithio'n dda i lywio | • Mae'r MoJ wedi treialu dau adnodd llythrennedd digidol newydd i wella canlyniadau i bobl sy'n gadael carchardai sydd ag anabledd dysgu, llythrennedd isel ac anaf caffaeledig i'r ymennydd. Bwriedir cyhoeddi adroddiad gwerthuso cyfun ar gyfer y Rhaglen Pobl sy'n Gadael | |

| | | |
|---|---|---|
| ymyriadau yn y dyfodol. Bydd y cynllun peilot hwn yn rhedeg am 12 mis tan fis Hydref 2023, gyda phwyslais ar werthuso'r gyfradd gostwng aildroseddu dros amser. | Carchar yn 2026, a fydd yn cyfuno canfyddiadau o'r gwahanol elfennau (proses, effaith a gwerth am arian). | **WEDI CWBLHAU**<br><br>*Bydd yr MoJ yn cyhoeddi'r gwerthusiad yn 2026.* |
| **HMPPS** - mae Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth mewn carchardai wedi arwain gwelliant o ran datblygu amgylcheddau sy'n cefnogi niwroamrywiaeth ar draws yr ystad. | • Mae gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer yr anghenion niwrowahanol hynny yn flaenoriaeth allweddol i rôl y Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth. Mae Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth bellach yn cael eu cydnabod yn aml mewn adroddiadau arolygu HMIP am eu heffaith gadarnhaol mewn carchardai, gan dynnu sylw at enghreifftiau o arferion da o ran cefnogi carcharorion ac addasiadau i'r amgylchedd i gefnogi niwroamrywiaeth. | **WEDI CWBLHAU**<br><br>*.* |

## Argymhelliad 6. (Cytuno)

Dylai asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol weithio gyda'i gilydd a gyda sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill mewn ffordd gydlynol, i ddeall a diwallu anghenion unigolion niwrowahanol yn y gymuned, atal troseddu a chefnogi adsefydlu.

**Ymateb y Llywodraeth**
Rydym yn cytuno'n llwyr â'r argymhelliad hwn. Mae Gweithgor Trawslywodraethol o uwch swyddogion wedi cael ei sefydlu, a fydd yn cyfarfod bob chwarter, ac mae Grŵp Gweithredol wedi cael ei sefydlu, a fydd yn cyfarfod bob mis i gychwyn yn ystod y cam cwmpasu chwe mis.

| Camau y cytunwyd arnynt | Diweddariad terfynol | Wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt? |
|---|---|---|
| Mae'r MoJ wedi gweithio gydag asiantaethau trydydd sector fel CLINKS ac asiantaeth Revolving Doors i ymgysylltu ag ymarferwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd yn y broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig, a bydd yn parhau i wneud hynny. | • Rydym wedi cwblhau cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn a fforymau profiad bywyd y trydydd sector i lywio ein dull gweithredu, sydd wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lywio arferion gorau, elfennau i'w cyflawni a mentrau allweddol y manylir arnynt ar draws yr holl ddiweddariadau.<br>• Er enghraifft, eglurodd asiantaeth Revolving Doors ac arbenigwyr profiad bywyd nad oedd cyflyrau niwroamrywiol yn cael eu hystyried fel rhan o amgylchiadau lliniarol yn y llys, a bod diffyg dealltwriaeth o broses y llys, sy’n cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau gwybodus. Fe wnaethom ddefnyddio hyn i gyfeirio ein hymgysylltiad â GLITEF, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a'r Swyddfa Farnwrol i gynyddu gwybodaeth a dylanwadu ar fentrau parhaus.<br>• Mae HMPPS wedi hwyluso ystod o gyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio ar gyfer Rheolwyr Cymorth Niwroamrywiaeth gan y rheini sydd â phrofiad bywyd o Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys sesiynau sy'n cael eu darparu gan ystod o elusennau profiad bywyd.<br><br>Byddwn yn parhau i gynnal ein perthnasoedd da â'r trydydd sector er mwyn ymgysylltu ag ymarferwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd. Bydd hyn | **WEDI CWBLHAU** |

| | | |
|---|---|---|
| | yn sicrhau bod ein dull gweithredu'n cael ei siapio a'i ddatblygu i ddiwallu anghenion yr unigolyn a'r sector ehangach, ac yn annog newid systemau. | |